

TAG

Edexcel TAG Uwch Gyfrannol
mewn Busnes Cymhwysol
(Dyfarniad Sengl) (8721)
(Dyfarniad Dwbl) (8722)

Edexcel TAG Uwch mewn
Busnes Cymhwysol
(Dyfarniad Sengl) (9721)
(Dyfarniad Dwbl) (9722)

Gorffennaf 2005

dysgu uwch, newid bywyd

Deunydd Asesu Sampl

Mae Cymwysterau Llundain yn un o'r prif gyrff arholi a dyfarnu yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Mae'n ymgorffori'r holl gymwysterau a ddyfarnwyd cyn hyn o dan frand Edexcel a BTEC. Rydym yn cynnig amrediad eang o gymwysterau gan gynnwys rhai cyffredinol (academaidd) a galwedigaethol a rhaglenni penodol i gyflogwyr.

Trwy rwydwaith o swyddfeydd yn y DU a gwledydd tramor, mae ein canolfannau'n derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i'w helpu i gyflwyno eu rhaglenni addysg a hyfforddiant i ddysgwyr.

Am wybodaeth bellach ffoniwch ein Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0870 240 9800, neu ewch i'n gwefan yn www.edexcel.org.uk

Gwneir cyfeiriadau at ddeunyddiau trydydd parti yn y fanyleb hon yn ddidwyll. Nid yw Cymwysterau Llundain yn cefnogi, yn cymeradwyo nac yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys y deunyddiau, a all fod yn agored i'w newid, nac unrhyw farn a fynegir ynddynt. (Gall y deunydd gynnwys gwerslyfrau, cylchgronau a chyhoeddiadau eraill a gwefannau.)

Cydnabyddiaethau

Mae Edexcel wedi cynhyrchu'r deunydd asesu sampl hwn ar sail ymgynghori gydag athrawon, arholwyr, ymgynghorwyr a phartion eraill â diddordeb. Mae Edexcel yn cydnabod ei ddyled i bawb a gyfrannodd eu amser a'u harbenigedd.

Awdurdodwyd gan Jim Dobson

Paratowyd gan Susan Hoxley

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn hawlfraint

© Cymwysterau Llundain Cyfyngedig 2005

Cynnwys

Papurau cwestiynau

Uned 1: Archwilio Pobl yn y Gwaith	1
Uned 6: Archwilio Hyrwyddo	15
Uned 8: Datblygu Busnes	29
Uned 10: Penderfyniadau Marchnata	33
Arweiniad cyffredinol ar farcio	


Cynlluniau Marcio

Cynllun Marcio ar gyfer Uned 1: Archwilio Pobl yn y Gwaith	51
Cynllun Marcio ar gyfer Uned 6: Archwilio Dyrchafu	59
Cynllun Marcio ar gyfer Uned 8: Datblygu Busnes	71
Cynllun Marcio ar gyfer Uned 10: Penderfyniadau Marchnata	75

I ateb y cwestiynau, bydd angen i chi gyfeirio at un o'r busnesau gwirioneddol yr ydych wedi'u hastudio, a defnyddio'r wybodaeth ym mhob cwestiwn sy'n ymwneud â busnesau a leolir yn nhref Melford.

1. Mae *Rarebear Ltd* yn gweithgynhyrchu tedi bêrs a 'theganau meddal' eraill yn ei dair ffatri, y mae un ohonynt yn Melford. Mae staff ffatri Melford yn falch o hanes diogelwch y ffatri a'i chynnyrch (a dargedir at fabanod a phlant bach). Mae *Rarebear Ltd* yn gwmni llwyddiannus, ac mae ei gyfarwyddwyr yn gobeithio ehangu drwy allforio eu teganau i weddill yr Undeb Ewropeaidd.

Dangosir siart drefniadaeth *Rarebear Ltd* isod. Lleolir yr holl swyddogaeth Adnoddau Dynol a'r holl staff uwchben lefel Rheolwr yn y Brif Swyddfa yn Llundain.



- a) Gan ddefnyddio siart drefniadaeth ar gyfer *Rarebear Ltd*, nodwch a oes gan *Rarebear Ltd* strwythur trefniadaeth wedi'i ganoli neu wedi'i ddatganoli. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng strwythur trefniadaeth wedi'i **ganoli** a wedi'i **ddatganoli**.

(6)

- b) Rhowch **un** enghraifft o sefyllfa lle mae Cyfarwyddwr Cynhyrchu *Rarebear Ltd* yn debygol o weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Marchnata.

(3)

Dair blynedd yn ôl roedd ffatri Melford yn eiddo i, ac yn cael ei rhedeg gan, un o gystadleuwyr *Rarebear Ltd*. Prynodd cyfarwyddwyr *Rarebear Ltd* y cystadleuydd hwn a bellach nhw sy'n berchen ar y ffatri ac yn ei gweithredu.

- c) Nodwch ac esboniwch **ddau** nod busnes tebygol y mae cyfarwyddwyr *Rarebear Ltd* yn debygol o fod wedi'u trafod wrth wneud y penderfyniad i brynu'r cystadleuydd.

(4)

ch) Nodwch **dri** gwasanaeth y bydd swyddogaeth Adnoddau Dynol *Rarebear Ltd* yn eu darparu i ffatri Melford.

(3)

d) Rhowch **ddwy** enghraifft o sut mae gwaith swyddogaeth Adnoddau Dynol *Rarebear Ltd* yn cael ei ddylanwadu gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975.

(4)

Yn y gofod isod, cofnodwch fanylion UN busnes yr ydych wedi'i astudio yn ystod eich cwrs. Bydd angen i chi gyfeirio at y busnes hwn wrth ateb cwestiynau 1 (dd) ac 1 (e).

Enw'r busnes: _____

Prif weithgareddau: _____

dd) Disgrifiwch strwythur trefniadaeth y busnes hwn.

(3)

e) Cymharwch strwythur trefniadaeth *Rarebear Ltd* â strwythur eich dewis fusnes. Nodwch ac esboniwch yr **elfennau tebyg** a'r **gwahaniaethau** rhwng strwythur trefniadaeth y ddau fusnes hyn.

(7)

Cyfanswm 30 marc

C1

--	--

2. *Coleg Melford* yw'r brif ganolfan addysg bellach yn yr ardal. Caiff y rhan fwyaf o fyfyrwyr *Coleg Melford* eu recriwtio o'r boblogaeth leol. Lleolir *Coleg Melford* ar dri safle, mae'n darparu cyrsiau i staff o fusnesau lleol, yn cynnig cyrsiau o ddiddordeb cyffredinol i'r gymuned, ac yn ddiweddar mae wedi sefydlu ei wefan ei hun. Mae staff y coleg yn cynnal 'nosweithiau agored' bob tymor y gwahoddir myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr iddynt.
- a) Mae myfyrwyr yn un o grwpiau buddiolwyr *Coleg Melford*. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar Goleg Melford, nodwch **ddau** o'i grwpiau buddiolwyr eraill.

Grŵp buddiolwyr 1 _____

Grŵp buddiolwyr 2 _____ (2)

Mae Juanita, y Rheolwr Adnoddau Dynol yng *Ngholeg Melford* wedi ysgrifennu'r drafft canlynol o Ddisgrifiad Swydd, ar gyfer swydd Cynorthwy-ydd Cyllid Iau.

DISGRIFIAD SWYDD

Gwybodaeth Gyffredinol

Gradd: Gweinyddu a Chlerigol Gradd 3
 Oriau gwaith: 36 awr yr wythnos (Llun i Gwener)
 Yn atebol i: Uwch Gynorthwy-ydd Cyllid

Crynodeb o'r swydd: Bydd deilydd y swydd yn cynorthwyo naill ai yn y tîm Cyfrifon Ariannol neu'r tîm Cyfrifon Rheoli yn y swyddogaeth Gyllid. Anogir ef/hi i astudio am gymhwyster cyfrifeg proffesiynol a rhoddir cymorth gyda ffioedd.

Prif Amcanion

Cyfrifon Ariannol

- Cynorthwyo wrth gynhyrchu cyfrifon ariannol ar gyfrifiadur.
- Cynorthwyo'r tîm wrth weinyddu'r cynllun prydlesu ceir, gan sicrhau bod ymholiadau yn cael ei trin yn gwrtais ac yn effeithlon.
- Cynorthwyo'r tîm wrth gynllunio a chynhyrchu'r cyfrifon blynyddol.
- Unrhyw ddyletswyddau cyfrifeg ariannol a roddir.

Cyfrifon Rheoli

- Cynorthwyo'r tîm wrth reoli cyllidebau a darparu gwybodaeth a chyngor ariannol arall i ddeilwyr cyllideb y coleg.
- Cysylltu â deilwyr cyllideb, gan gynghori a chynorthwyo yn ôl y gofyn.
- Paratoi cyllidebau amrywiol, gan ddefnyddio dulliau cyfrifiadurol a dulliau â llaw.
- Unrhyw ddyletswyddau cyfrifeg rheoli a roddir.

Rydym yn gyflogwr Cyfle Cyfartal
 Mae Coleg Melford yn gweithredu polisi Dim Ysmygu

- b) Gan ddefnyddio'r Disgrifiad Swydd, rhwch enghreifftiau o **ddwy eitem arall** o wybodaeth y dylai Juanita eu cynnwys yn yr adran 'Gwybodaeth Gyffredinol'.

Eitem 1

Eitem 2

(4)

Bydd Juanita hefyd yn ysgrifennu'r Fanyleb Person ar gyfer y swydd hon.

- c) (i) Esboniwch y berthynas rhwng y Disgrifiad Swydd a'r Manyleb Person ar gyfer y swydd hon.

(2)

- (ii) Bydd y ffurflen Manyleb Person isod yn cael ei defnyddio ar gyfer swydd y Cynorthwy-ydd Cyllid Iau. Nodwch **un** eitem briodol o wybodaeth o dan bob pennawd.

(7)

MANYLEB PERSON: CYNORTHWY-YDD CYLLID IAU
<u>Sgiliau</u>
<u>Profiad</u>
<u>Gwybodaeth</u>
<u>Cymwysterau</u>
<u>Gofynion eraill</u>

Mae Juanita yn bwriadu ail-strwythuro'r Manyleb Person i gynnwys adran ar 'Nodweddion Hanfodol'.

ch) Esboniwch sut y byddai cynnwys adran Nodweddion Hanfodol yn helpu

- Juanita yn ei rôl fel Rheolwr Adnoddau Dynol
- *Coleg Melford*.

(5)

Yn y gofod isod, cofnodwch fanylion UN busnes yr ydych wedi'i astudio yn ystod eich cwrs. Bydd angen i chi gyfeirio at y busnes hwn pan yn ateb cwestiynau 2 (d) and 2 (dd).

Enw'r busnes: _____

Prif weithgareddau: _____

dd) Nodwch **ddwy** nodwedd bersonol y mae'r busnes hwn yn chwilio amdanynt pan yn recriwtio staff. Esboniwch pam fod pob un o'r nodweddion personol hyn yn bwysig i'r busnes hwn.

(5)

f) Gwerthuswch i ba raddau y mae materion amgylcheddol yn dylanwadu ar waith y busnes hwn, a sut mae ei staff yn ymateb i'r materion hyn.

(5)

Cyfanswm 30 marc

Q2

--	--

3. Mae *Canolfan Hamdden Melford* yn eiddo i ac yn cael ei hariannu gan *Gyngor Melford*, yr awdurdod lleol. Mae'r Ganolfan yn cystadlu gyda *Gunns Ltd*, canolfan hamdden sector preifat, sydd hefyd ym Melford.

a) Disgrifiwch sut mae perchenogaeth *Gunns Ltd* yn wahanol i berchenogaeth *Canolfan Hamdden Melford*.

(2)

b) Nodwch **un** amcan busnes y bydd gan *Ganolfan Hamdden Melford* a *Gunns Ltd* yn gyffredin, ac esboniwch pam ei fod yn amcan priodol i'r ddau fusnes.

(5)

Mae gan *Ganolfan Hamdden Melford* bwl nofio a dwy neuadd chwaraeon fawr.

c) Nodwch **bum** eitem y dylid eu cynnwys ar restr wirio iechyd a diogelwch i staff sy'n gweithio yn yr ardaloedd hyn yng *Nghanolfan Hamdden Melford*.

(5)

Mae lefel uchel o absenoldeb ymysg y staff rhan-amser a'r staff dros dro sy'n gweithio yng nghaffi a bar Canolfan Hamdden Melford. O ganlyniad, weithiau gofynnir i staff a leolir yn y pwll a'r neuaddau chwaraeon wasanaethu yn y caffi a'r bar yn lle cydweithwyr absennol. Yn ddiweddar mae'r Ganolfan wedi colli nifer o staff o bob maes, a chafodd ei beirniadu yn y papur lleol gan gwsmeriaid a chynweithwyr.

ch) Nodwch ac esboniwch **un** rhewm tebygol pam fod llawer o staff y Ganolfan yn ddi-gymhelliant.

(2)

d) Esboniwch **un** ymagwedd y gallai *Canolfan Hamdden Melford* ei mabwysiadu i geisio gwella cymhelliant staff. Archwiliwch **un** effaith negyddol bosibl y gallai yr ymagwedd a ddewisoch ei chael ar y Ganolfan.

(6)

Yn y gofod isod, cofnodwch fanylion UN busnes yr ydych wedi'i astudio yn ystod eich cwrs. Bydd angen i chi gyfeirio at y busnes hwn pan yn ateb cwestiynau 3 (dd) a 3 (e).

Enw'r busnes: _____

Prif weithgareddau: _____

dd) Rhowch **ddau** reswm pam ei bod yn bwysig i'r busnes hwn gael staff sy'n uchel eu cymhelliant.

Rheswm 1

Rheswm 2

(4)

e) Gwerthuswch i ba raddau y mae **un** o'r theorïau canlynol yn esbonio cymhelliant gweithwyr yn y busnes a ddewisoch.

- Hierarchaeth anghenion Maslow
- Damcaniaeth dau ffactor Herzberg

Damcaniaeth a ddewiswyd

Sut mae'n dylanwadu ar gymhelliant _____

(6)

Cyfanswm 30 marc

CYFANSWM AR GYFER Y PAPUR: 90 MARC

DIWEDD

Q3

--	--

Mae cwestiynau 1–5 yn seiliedig ar *Fitness Fast*

Mae Alice Stewart, gymnastwraig ryngwladol enwog, yn bwriadu agor canolfan ffitrwydd i ben uchaf y farchnad o'r enw *Fitness Fast*, yn Harlow, ei thref leol, sydd yn Essex, 29 milltir i'r gogledd o Lundain. Mae mynediad o'r M1, neu orsaf reilffordd y brif linell. Wedi ymchwilio i'w chystadleuaeth leol, mae Alice wedi nodi bwlech yn y farchnad ar gyfer canolfan ffitrwydd 'o'r radd flaenaf', sy'n cynnig mwy na champfa ymarfer yn unig. Mae'n bwriadu targedu pobl broffesiynol yn y grŵp oedran 18-45 gyda digon o incwm i dalu am yr aelodaeth a'r ffioedd misol o'u hincwm disgresiynol. Bydd aelodaeth flwyddyn yn £300, a disgwylir i aelodau sefydlu taliad debyd uniongyrchol bob mis i dalu'r ffi hon.

Mae Alice yn dechrau'r busnes o ddim, ac os yw hi am orosi a gwneud arian bydd angen iddi greu ymwybyddiaeth o *Fitness Fast* a'i chyfleusterau yn effeithiol o fewn ei grŵp targed. Yn nhermau busnes mae angen iddi recriwtio o leiaf 300 o aelodau sy'n talu erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf.

1. Nodwch **ddau** amcan busnes y mae Alice wedi'u gosod, ac ar gyfer pob un nodwch sut y gellid defnyddio hyrwyddo i'w helpu i gwrdd â phob amcan busnes yr ydych wedi'u nodi.

Amcan 1

Amcan 2

(4)

Cyfanswm 4 marc

C1

--	--

2. Ar hyn o bryd, adroddir bod twf mawr yn y nifer o gampfeydd a chanolfannau ffitrwydd sy'n agor. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod hyd at 1 filiwn o bobl yn y DU yn ymuno â champfa neu ganolfan ffitrwydd bob blwyddyn. Fodd bynnag, o'r holl bobl sy'n ymuno, mae llai nag 20% yn traferthu mynychu o leiaf unwaith y mis. Mae hyn yn awgrymu tra bod ymwybyddiaeth o gampfeydd a chanolfannau ffitrwydd yn gymharol uchel ymysg y farchnad darged, ac i rai bobl yn sicr mae rhywbeth deniadol am ymuno â champfa, mae'r defnydd gwirioneddol o gampfeydd yn gymharol isel.

O ystyried yr achosion o gofrestru a defnyddio campfeydd fel y disgrifir uchod, nodwch **ddau** ffactor y bydd yn rhaid i Alice eu hystyried wrth lunio ei chynllun hyrwyddo ac eglurwch sut bydd y ffactorau hyn yn effeithio ar ei chynllun.

Ffactor 1

Effaith ar y cynllun hyrwyddo

Ffactor 2

Effaith ar y cynllun hyrwyddo

(6)

Cyfanswm 6 marc

C2

--	--

3. Mae gan Harlow boblogaeth gymharol ifanc, gyda chyfanswm o ryw 80 000 o bobl. Bob wythnos caiff papur newydd lleol ei gyhoeddi a'i werthu mewn siopau papurau newydd, a dosberthir taflen leol am ddim i'r holl gartrefi yn y dref. Yng nghanol y dref mae sinema, a sinema aml-sgrîn ar gyrion y dref. Yr orsaf radio leol yw BBC Radio Essex, ac mae'r dref o fewn ystod Capital Radio – yr orsaf gerddoriaeth fasnachol sy'n darlledu i Lundain ac ar draws de-ddwyrain Lloegr. Mae rhai cartrefi yn derbyn Anglia ITV, ond mae'r rhan fwyaf wedi'u tiwnio i ITV London. Mae angen i Alice baratoi cynllun hyrwyddo gyda'i chyllideb gymharol fach o £36 000.

a) Nodwch **ddau** gyfrwng gwahanol sydd ar gael i Alice eu defnyddio i hyrwyddo *Fitness Fast*.

(2)

b) Gan ystyried ei chyllideb, nodwch ac esboniwch pa gyfrwng **nad** yw'n debygol o fod yn briodol i Alice eu defnyddio i hyrwyddo *Fitness Fast*.

(2)

c) Nodwch y farchnad darged y mae Alice yn dymuno ei denu i *Fitness Fast* ac esboniwch sut gallai'r farchnad darged effeithio ar y dewis o gyfrwng ar gyfer ei hymgyrch hyrwyddo.

(2)

Cyfanswm 6 marc

C3

--	--

4. Dylai pob hysbyseb a hyrwyddiad osgoi torri Deddf Disgrifiad Masnach 1968.

a) Disgrifwch sut y gall cynllun hyrwyddo Alice osgoi torri Deddf Disgrifiad Masnach 1968.

(2)

b) Esboniwch **un** canlyniad i Alice os yw hi'n torri Deddf Disgrifiad Masnach 1968.

(2)

Cyfanswm 4 marc

C4

--	--

5. a) Nodwch **un** dull cysylltiadau cyhoeddus priodol y gallai Alice ei ddefnyddio fel rhan o'i chynlluniau ar gyfer lansio *Fitness Fast*, gan esbonio pam y byddai'n briodol.

(2)

b) Wrth farchnata gwasanaeth, fel yr un a gynigir gan *Fitness Fast*, esboniwch pam fod cysylltiadau cyhoeddus mor bwysig.

(4)

c) Disgrifiwch sut y gallai Alice ddefnyddio ei chefnidir chwaraeon proffesiynol i gefnogi'r cynlluniau cysylltiadau cyhoeddus i hyrwyddo *Fitness Fast*.

(4)

Cyfanswm 10 marc

C5

--	--

Mae cwestiynau 6 a 7 yn seiliedig ar *Street Seen*

Mae *Street Seen* yn siop dillad ffasiynol yng nghanol tref Harlow sy'n gwerthu dillad a anelir at ddynion a menywod ifanc sy'n mynychu clybiau nos. Mae'r siop yn cael ei rhedeg gan Joe a Joan Coleman, mae wedi bod yn agored ers 3 blynedd ac er bod busnes yn foddhaol, nid yw'n tyfu.

Mae asiantaeth hysbysebu leol wedi llunio rhai syniadau cychwynnol ar gyfer ymgyrch hyrwyddo cyllideb gyfyngedig i geisio ail-lansio *Street Seen*.

Maent wedi rhoi'r opsiynau canlynol i Joe a Joan

- taflen
- hysbyseb radio fer.

Mae Joe a Joan yn gwybod bod yn rhaid iddynt gyflawni'r defnydd gorau o'u cyllideb er mwyn cyrraedd y farchnad darged.

6. a) Aseswch ddefnyddioldeb taflen fel yr un a ddangosir isod i *Street Seen*, yn nhermau cost debygol, y gallu i gyrraedd y farchnad darged a chodi ymwybyddiaeth.

-* Amser i gael cip ar *-

STREET SEEN

Dillad clybio i bawb

Yr holl brif frandiau a'r agwedd hefyd

Dewch i fwrw golwg - galwch heibio unrhyw bryd rhwng
9am a 5pm dydd Llun i ddydd Sadwrn
Noson hwyr arbennig nos Wener - agored tan 9pm

25 Alende Avenue, Harlow, Essex, CM20 2JD

Am fwy o fanylion, ffoniwch Joe neu Joan ar 09705 538842

Cost debygol

Gallu i gyrraedd y farchnad darged

Codi ymwybyddiaeth

(3)

b) Pa ddulliau gall Joe a Joan eu defnyddio i fesur effeithiolrwydd ymgyrch daflenni?

(4)

c) Esboniwch **ddau** wendid o safbwynt dosbarthu'r daflen hon o ddrws i ddrws yn holl ardaloedd preswyl y dref.

Gwendid 1

Gwendid 2

(4)

ch) Nodwch a disgrifiwch **ddau** ddull gwahanol o ddsbarthu'r daflen hon a fyddai'n fwy effeithiol na dosbarthu o ddrws i ddrws. Ar gyfer pob dull nodwch pam y byddai hyn yn fwy effeithiol wrth hyrwyddo busnes *Street Seen*.

Dull 1

Dull 2

C6

(6)

Cyfanswm 17 marc

--	--

7. Fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo awgryma'r asiantaeth hysbysebu y byddai radio lleol yn gyfrwng da i'w ddefnyddio i hyrwyddo *Street Seen*. Er bod cost wirioneddol 'amser awyr' yn gymharol isel, roedd Joe a Joan yn eithaf siomedig i ddarganfod y byddai cost cynhyrchu hysbyseb yn gymharol ddrud ac oni bai eu bod yn gwneud defnydd da o'r recordiad, efallai na fyddai'n werth chweil.

a) Yn seiliedig ar y farchnad darged y mae Joe a Joan yn dymuno ei chyrraedd, nodwch amser da o'r dydd i ddarlledu hysbysebion radio ar gyfer *Street Seen* a rhowch **un** rheswm pam.

(2)

- b) Mae'r asiantaeth hysbysebu yn nodi petaen nhw'n defnyddio hysbysebu radio gallent ddewis cyrhaeddiad neu amllder. Mae Joe a Joan wedi'u drysu gan y termau hyn. Nodwch ystyr y ddau derm ac esboniwch beth yw'r gwahaniaeth rhyngddynt.

Cyrhaeddiad

Amllder

(4)

- c) Gan ystyried y costau cynhyrchu uchel posibl ar gyfer hysbyseb radio, nid yw Joe a Joan yn argyhoeddedig y bydd radio lleol yn gost-effeithiol yn nhermau *Street Seen*. Gwethuswch ddefnyddioldeb defnyddio radio lleol i hyrwyddo *Street Seen*.

(4)

- ch) Mae pob math o hysbysebu o dan rym ddeddfwriaeth. Nodwch **dri** phrif gam yn y broses y mae'n rhaid i wrandawr fynd drwyddynt i wneud cwyn, ar sail foesegol, am hysbyseb radio.

(3)
Cyfanswm 13 marc

Mae cwestiynau 8–10 yn seiliedig ar ymgyrchoedd hyrwyddo yr ydych wedi'u hastudio yn ystod eich cwrs.

8. Rhowch enghraifft o ymgyrch hyrwyddo sy'n cynnwys elfen o gyfrwng newydd.

Enw'r cynnyrch sy'n cael ei hysbysebu

Dyddiad yr ymgyrch

a) Nodwch **un** amcan busnes yr ymgyrch hon

(1)

b) Nodwch **un** enghraifft o'r cyfrwng newydd a ddefnyddiwyd

(1)

c) Esboniwch pam oedd y cyfrwng newydd yr ydych wedi'i nodi wedi cael ei ddefnyddio fel rhan o'r ymgyrch hon.

(2)

ch) Disgrifiwch **bedwar** o'r gofynion cynhyrchu ar gyfer yr hysbyseb.

(4)

d) Esboniwch sut gallai'r defnydd hwn o gyfryngau newydd fod wedi gosod cyfyngiad ar yr ymgyrch hon.

(2)

Cyfanswm 10 marc

C8

--	--

9. Rhowch enghraifft o ymgyrch hyrwyddo a oedd yn cynnwys hysbysebu mewn sinema.

Enw'r cynnyrch oedd yn cael ei hysbysebu

Dyddiad yr ymgyrch

a) Nodwch **ddau** reswm pam y defnyddiwyd hysbysebu mewn sinema fel rhan o'r ymgyrch hon.

1 _____

2 _____

(2)

- b) Disgrifiwch **un** cyfyngiad y mae'r dewis o hysbysebu mewn sinema yn gosod ar yr hysbysebwr.

(2)

- c) Esboniwch sut y gallech archwilio barn y gynulleidfa yn y sinema am yr hysbyseb hon.

(4)

- ch) Esboniwch **un** fantais o hysbysebu mewn sinema o'i gymharu â hysbysebu ar y teledu.

(2)

Cyfanswm 10 marc

C9

--	--

10. Rhowch enghraifft o ymgyrch hyrwyddo a oedd yn cynnwys nawdd.

Enw'r busnes neu'r cynnyrch sydd yn brif noddwr

Dyddiad neu hyd y nawdd

- a) Disgrifiwch ffurf y nawdd.

(2)

b) Esboniwch fanteision y nawdd hwn i'r noddwr, o'i gymharu â hysbysebu neu unrhyw ffurf arall ar hyrwyddo.

(2)

c) Esboniwch **ddwy** effaith negyddol bosibl y nawdd hwn.

1 _____

2 _____

(4)

ch) Esboniwch sut y gall y noddwr fesur effeithiolrwydd eu nawdd.

(2)

Cyfanswm 10 marc

C10

--	--

CYFANSWM Y PAPUR: 90 MARC

DIWEDD

6923

Edexcel TAG

Busnes Cymhwysol

Uned 8: Datblygu Busnes

Aseiniad a Osodir yn Allanol

TAG Busnes Cymhwysol

Uned 8: Datblygiad Busnes

Aseiniad a Osodir yn Allanol

Sefyllfa

Rydych wedi dymuno erioed cael gweithio i chi eich hun ac wedi breuddwydio am redeg eich busnes eich hun. Yn ddiweddar rydych wedi etifeddu swm o £8 000 gan eich mam-gu a'ch tad-cu, ac yn teimlo mai nawr yw'r amser i gyflawni eich breuddwyd ac agor busnes bach, gan weithredu hwn fel Masnachwr Unigol.

Rydych yn sylweddoli na fydd yr etifeddiaeth yn ddigonol i dalu am holl gostau sefydlu busnes ac y bydd angen i chi dderbyn cyllid ychwanegol o ffynhonnell arall, ond mae'n rhoi pwynt cychwyn i chi.

Rydych wedi penderfynu ymgymryd ag ymchwil a chynllunio manwl a chasglu'r wybodaeth mewn modd y gallwch ei ddefnyddio i gefnogi cais am gyllid. Rydych yn dymuno gallu esbonio eich syniad a'r costau cysylltiedig yn uniongyrchol i fenthycwr/buddsoddwr posibl. Rydych hefyd yn dymuno gadael dogfen broffesiynol gyda nhw sy'n dangos eich syniad busnes yn glir fel busnes dichonol posibl, ac felly ei bod yn werth chweil buddsoddi ynddo.

Er mwyn argyhoeddi buddsoddwr posibl mae'n bwysig bod eich dogfen yn dangos y canlynol yn glir:

- ymchwil sylfaenol ac eilaidd i sefydlu dichonoldeb eich syniad busnes yn nhermau y galw amdano
- gwybodaeth ar gystadleuwyr i gynorthwyo gyda phrisio, gwahaniaethu posibl o ran cynnyrch/gwasanaeth
- gofynion o ran adnoddau, dynol a ffisegol er mwyn dangos yn glir sut yr ydych yn bwriadu cynhyrchu eich cynnyrch/darparu gwasanaeth
- materion ansawdd, sut y gellir sicrhau a rheoli hyn
- adran gyllid fanwl, yn cynnwys
 - ffynonellau cyllid sydd ar gael
 - cyllideb i gychwyn
 - gofynion cyfalaf gweithio
 - rhagolygon llif arian a mantoli'r cyfrifon
 - cyfrifon masnachu ac elw a cholled a ragwelir
 - mantolen gychwynnol a ragwelir
- cynlluniau marchnata a hyrwyddo, wedi'u cysylltu â'ch cyllidebau a'ch marchad darged
- dadansoddiad/gwerthusiad o sefyllfa'r busnes ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, ynghyd â rhagolwg arfaethedig o'r sefyllfa ymhenn tair blynedd.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth asesu ar gyfer yr uned hon fel a ganlyn:

- cynllun busnes wedi'i ddatblygu'n llawn ar gyfer sefydlu busnes bach newydd yn gweithredu fel masnachwr unigol. Bydd y cynllun yn cwmpasu nodau ac amcanion, cynllun marchnata, materion adnoddau, dadansoddiad a chynllunio ariannol.
- cyflwynir y cynllun fel syniad busnes dichonol, yn addas i gefnogi cais am gyllid ar gyfer y fenter.

Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal yr asesiad

1. Y sefyllfa a roddir yw'r **unig** fodd o asesu *Uned 8: Datblygu Busnes*.
2. Ar wahân i'r ddogfen hon **ni fydd papur arholiad** ar gyfer yr asesiad.
3. Cyflawnir asesu gan aseswyr y ganolfan, y bydd eu penderfyniadau yn ddarostyngedig i safoni gan ganolwyr allanol Edexcel. Cyflawnir yr holl safoni drwy anfon sampl o waith y myfyrwyr a nodir ar ddogfennau cysylltiedig a anfonir i'r ganolfan yn ystod blwyddyn yr arholiad. Bydd hyn yn digwydd ar yr un pryd â safoni'r unedau portffolio, yn y gyfres safoni yn ystod yr haf.
4. Cyflawnir gwaith o dan amodau reoledig
5. Rhaid i waith myfyrwyr gael ei gwblhau a'i asesu gan y ganolfan erbyn **diwedd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau i'w safoni**.
6. Ni ddylai myfyrwyr dreulio mwy na chyfanswm o 15 awr mewn sefyllfaoedd rheoledig yn cwblhau'r cynllun busnes.
7. Rhaid nodi marciau myfyrwyr ar y ffurflenni OPTEMS priodol a'u dychwelyd i Edexcel erbyn y terfyn amser a roddwyd yn y briff.
8. Rhaid cynhyrchu tystiolaeth i'w hasesu yn erbyn Uned 8 yn benodol i gwrdd â gofynion y sefyllfa.
9. **Dylai canolfannau nodi bod yr uned hon yn cael ei safoni yn yn ystod yr haf yn unig, a dim ond ar yr adeg honno hynny y gellir cyflwyno marciau a gwaith myfyrwyr.**

Sefyllfa

Great Walls Ltd a'r broblem gyda'u cynnyrch *Wallfiller*

Mae *Great Walls Ltd* yn un o brif weithgynhyrchwyr deunyddiau DIY ac addurno'r cartref. Ei gynnyrch mwyaf adnabyddus yw *Wallfiller*. Powdwr yw hwn sy'n cael ei gymysgu gyda dŵr i greu past a ddefnyddir i lenwi ac atgyweirio craciau mewn waliau yn y cartref cyn iddynt gael eu haddurno.

Mae *Wallfiller* yn gyfrifol am 30% o incwm *Great Walls Ltd* a 50% o'u elw gros (EG).

Mae *Wallfiller* ar gael yn eang ym mhob prif adwerthu DIY a lleoedd eraill sy'n gwerthu deunyddiau addurno. Mae'r cynnyrch ar y farchnad ers 20 mlynedd a hwn yw arweinydd y brand mewn deunyddiau llenwi gyda 70% o gyfran y farchnad yn nhermau gwerthiannau uned. Cyfran weddilliol y farchnad yw brand y gwerthwr eu hun. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf ychydig iawn o gefnogaeth hyrwyddo a dderbyniodd gan *Great Walls Ltd*, gan fod ei amlygrwydd yn y farchnad yn golygu ei fod yn gwerthu ei hun. Mae *Great Wall Ltd* wedi defnyddio ei le yn y farchnad a'r diffyg cystadleuaeth effeithiol i gadw'r pris yn uchel a 'godro' elw o'r cynnyrch. Mae'r farchnad ar gyfer llenwyr waliau yn fawr, ond bu'n statig ers nifer o flynyddoedd.

Eleni, 2004, gwelwyd cynnyrch newydd yn cael ei lansio i herio amlygrwydd *Wallfiller* yn y farchnad.

Mae'r cynnyrch newydd, *Redifill*, yn llenwr sydd wedi'i gymysgu eisoes y gellir ei ddefnyddio yn syth o'r cynhwysydd sy'n ei ddal – heb orfod ei gymysgu. Mae *Redifill* yn cael ei hysbysebu ar y teledu ac mae'n cael ei werthu gan nifer cynyddol o siopau.

Yn yr archfarchnadoedd DIY mawr, fel B&Q, mae pecyn 1.8kg o *Wallfiller* yn gwerthu am £4.98 a chynhwysyn 1kg o'r *Redifill* newydd yn gwerthu am £4.98.

Datblygwyd a marchnatwyd *Redifill* gan ddau gyn-weithwyr *Great Walls Ltd*, ac nid oes ganddo unrhyw hanes blaenorol yn y farchnad. Fodd bynnag, ar ôl pedwar mis yn unig ar y farchnad mae *Redifill* yn dechrau cymryd cyfran o'r farchnad oddi wrth *Wallfiller*.

Mae'n rhaid i'r tîm marchnata yn *Great Walls Ltd* wneud rhai penderfyniadau pwysig

- a ddylen nhw ddechrau cefnogi *Wallfiller* i amddiffyn ei safle yn y farchnad?
- a ddylen nhw lansio cynnyrch newydd a chyflwyno cynnyrch eu hunain sydd wedi'i gymysgu'n barod i gystadlu'n uniongyrchol â *Redifill*?
- neu oes yna ymagwedd arall y gallent ei chymryd?

1. Defnyddir dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) yn aml i ddadansoddi sefyllfa fusnes gyfredol.

a) Defnyddiwch y penawdau isod i gynnal dadansoddiad SWOT syml o sefyllfa bresennol **Wallfiller**. Rhowch **ddwy** enghraifft o dan bob pennawd.

Cryfderau

Gwendidau

Cyfleoedd

Bygythiadau

(8)

b) Esboniwch un prif wahaniaeth rhwng gwendid a bygythiad yng nghyd-destun dadansoddiad SWOT.

(2)

- c) Nodwch **un** pwynt gwerthu unigryw (PGU/USP) yr ymddengys sydd gan *Redifill*, yn ôl y disgrifiad yn yr astudiaeth achos. Esboniwch pam yr ystyrir hwn fel PGU.

PGU ar gyfer *Redifill*

Pam bod hyn yn PGU

(3)


Cyfanswm 13 marc

C1


--	--

Mae'r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth er mwyn ateb Cwestiwn 2.

Ffigur1: Newid yn y Gwerthiant Cenedlaethol o gynnyrch Llenwi Waliau 1995-2003



Ffigur 2: Matrics Boston



2. Defnyddir Matrics Boston yn aml i helpu yn y broses cynllunio marchnata.

- a) (i) Cyfeiriwch at **Ffigur 1** a'r astudiaeth achos. Ar **Ffigur 2** nodwch lle oedd *Wallfiller* ar ddiwedd 2003 drwy osod 'W' ar y matrics. Cyfiawnhewch eich ateb.

(2)

- (ii) Nodwch lle oedd *Redifill* ar ddechrau a diwedd 2003 drwy osod 'D' ar gyfer y safle dechrau a 'G' ar gyfer y safle gorffen ar Ffigur 2. Cyfiawnhewch eich ateb.

(3)

b) Yn y 1990au cynnar roedd *Wallfiller* yn sector Seren Matrics Boston.

- (i) Esboniwch pa newidiadau y byddai angen iddo eu gwneud i'w cynlluniau marchnata er mwyn cyrraedd y safle hwnnw eto.

(4)

(ii) Esboniwch pam y byddai'n anodd iawn i *Wallfiller* ddod yn ôl i'r safle hwn.

(2)

c) Esboniwch **un** fantais o ddefnyddio Matrics Boston i ddadansoddi safle cymharol cynnyrch yn hytrach na defnyddio cylch bywyd cynnyrch syml.

(2)

Cyfanswm 13 marc

C2

--	--

3. Mae dealltwriaeth drylwyr o'r amgylchedd marchnata cyfredol yn bwysig cyn gwneud penderfyniadau marchnata.

a) Disgrifiwch yr amgylchedd marchnata y lansiwyd *Redifill* iddo, yn seiliedig ar wybodaeth yn yr astudiaeth achos.

(4)

b) Disgrifiwch **ddau** o'r goblygiadau i *Great Walls Ltd* os yw'r rheolwyr yn penderfynu eu bod yn dymuno cyflwyno eu cynnyrch wedi'i gymysgu'n barod eu hunain.

1 _____

2 _____

(4)

c) Mae'r tîm rheoli yn *Great Walls Ltd* yn credu bod yn rhaid iddynt wneud penderfyniad cyflym am yr hyn y dylid ei wneud yn y farchnad.

Nodwch o'r astudiaeth achos pam y maent yn credu bod penderfyniad cyflym yn bwysig.

(1)

Cyfanswm 9 marc

C3

--	--

4. Mae'r Cyfarwyddwr Gwerthu yn *Great Walls Ltd* yn dymuno torri pris gwerthu *Wallfiller* i £1.00 yn is na phris gwerthu *Redifill*, am gyfnod o dri mis, mewn ymgais i yrru *Redifill* allan o'r farchnad.

a) A fyddai'r strategaeth hon yn cael ei disgrifio fel strategol neu dactegol? Cyfiawnhewch eich ateb.

(3)

b) Gwerthusch y toriad hwn mewn pris o safbwynt yn gwerthwr.

(4)

c) Pa broblemau eraill y mae'r strategaeth hon yn debygol o'u creu i *Great Walls Ltd*?

(i) yn y tymor byr a (ii) yn y tymor hir?

(i) Problemau tymor byr

(2)

(ii) Problemau tymor hir

(2)

Cyfanswm 11 marc

C4

--	--

5. Cyn iddynt wneud unrhyw benderfyniadau, mae'r Cyfarwyddwr Marchnata yn *Great Walls Ltd.*, Joe Dewell, yn dymuno darganfod pam bod *Redifill* yn ymddangos mor llwyddiannus.

Mae e'n awgrymu rhaglen ymchwil, sy'n cynnwys cynnal arolwg o

- adwerthwyr sy'n gwerthu *Redifill*
- defnyddwyr sy'n prynu *Redifill*.

- a) Esboniwch sut bydd y wybodeth a geir gan yr ymchwil hon yn helpu Joe.

Ymchwilio'r adwerthwyr

Ymchwilio'r defnyddwyr

(4)

- b) Yn seiliedig ar y gwaith yr ydych wedi'i wneud ar gyfer yr uned hon, disgrifiwch ddull priodol o ymchwilio cwsmeriaid i ddarganfod pam eu bod yn prynu *Redifill*.

(6)

- c) Nodwch **ddwy** enghraifft o wybodaeth y byddai Joe yn dymuno cael gwybod amdanynt, wrth ymchwilio defnyddwyr, er mwyn dargnafod pam eu bod yn prynu *Redifill*.

1 _____

2 _____

(2)

- ch) Mae Joe yn cynllunio prynu gwybodaeth archwilio manwerthu barhaus am gynnyrch yn y farchnad atgyweirio waliau. Esboniwch yr hyn a olygir gan archwilio manwerthu parhaus yng nghyd-destun ymchwil i'r farchnad, a sut y gallai roi i Joe wybodaeth hanfodol am safle cystadleuol *Redifill* o'i gymharu a *Wallfiller*.

(4)

- d) Esboniwch sut gellid defnyddio ffynonellau ymchwil eilaidd i helpu i lywio unrhyw benderfyniadau marchnata yn *Great Walls Ltd*.

(2)

Cyfanswm 19 marc

C5

--	--

6. Gan ddefnyddio ei gysylltiadau busnes i fusnes, mae Cyfarwyddwr Gwerthu *Great Walls Ltd* yn ffonio uwch reolwr yn un o'r prif gadwyni DIY i'w holi am y cynnyrch newydd. Mae'r rheolwr hwn yn brynwr sydd wedi penderfynu y bydd ei siopau yn gwerthu *Redifill*.

Gwerthuswch y dull hwn o gadael gwybodaeth ymchwil i'r farchnad.

(4)
Cyfanswm 4 marc

C6

--	--

Mae Cwestiynau 7–9 yn seiliedig ar eich archwiliad chi eich hun o ymgyrchoedd marchnata yr ydych wedi'i gyflawni fel rhan o'ch astudiaethau ar gyfer yr uned hon.

7. Mae'r astudiaeth achos ar ddechrau'r papur hwn yn seiliedig ar gynnyrch newydd yn dod i mewn i farchnad sydd eisoes yn bodoli.

Yn seiliedig ar yr hyn yr ydych wedi'i astudio ar gyfer eich gwaith ar yr uned hon disgrifiwch enghraifft o gyflwyno **cynnyrch newydd** yr ydych wedi'i weld neu wedi dysgu amdano.

- a) Mae angen i chi gynnwys

Marchnad neu sector eg 'melysion', neu 'nwyddau gwyn' _____

Enw'r cynnyrch newydd _____

Brand _____

Math o gynnyrch _____

Gweithgynhyrchydd/perchennog y cynnyrch newydd _____

Marchnad darged _____

(2)

- b) Disgrifiwch **DDWY** nodwedd sy'n gwneud hwn yn gynnyrch newydd

Nodwedd _____

Nodwedd . _____

(4)

- c) Nodwch **UN** maes mewn cynllunio marchnata neu wneud penderfyniadau sydd angen ei ystyried wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cynnyrch newydd hwn. Gwerthuswch hyn yng nghyd-destun cyflwyno'r cynnyrch newydd.

(5)

Cyfanswm 11 marc

C7

--	--

8. Yn seiliedig ar eich astudiaethau, disgrifiwch pa mor llwyddiannus y mae'r cynnyrch/ymgyrch newydd yr ydych wedi'i enwi wedi bod yn nhermau

- (i) Cwrdd ag anghenion y sefydliad
(ii) Cwrdd ag anghenion cwsmeriaid

Cyfiawnhewch bob ateb yr ydych yn ei roi ac esbonio sut yr ydych wedi dod i'ch casgliad.

- (i) Cwrdd ag anghenion y sefydliad

(3)

- (ii) Cwrdd ag anghenion cwsmeriaid

C8

(3)
Cyfanswm 6 marc

9. Mae cyfyngiadau yn effeithio ar bob ymgyrch farchnata.

- (i) Nodwch **un** cyfyngiad ar yr ymgyrch farchnata ar gyfer y cynnyrch newydd yr ydych wedi'i enwi.

(1)

- (ii) Esboniwch sut wnaeth y cyfyngiad hwn newid cwrs yr ymgyrch farchnata.

(2)

- (iii) Disgrifiwch yr effaith a gafodd y cyfyngiad hwn ar ganlyniad yr ymgyrch farchnata.

(2)

Cyfanswm 5 marc

C9

CYFANSWM Y PAPUR: 90 MARC

DIWEDD

Arweiniad cyffredinol ar farcio

Dylai arholwyr chwilio am nodweddion i'w gwobrwyo yn hytrach na diffygion i'w cosbi. NID yw hyn yn golygu gwybrwyo atebion anghywir neu atebion annigonol, ond mae yn golygu caniatáu i ddysgwyr gael eu gwobrwyo am atebion sy'n dangos defnydd cywir o egwyddorion a gwybodaeth, ac am feddwl yn gritigol ac yn greadigol. Dylai arholwyr felly ddarllen ac ystyried pob ymateb yn ofalus; hyd yn oed os nad yr ateb hwnnw a ddisgwyliwyd, gall fod yn deilwng o gael ei wobrwyo. Dylid ymgynghori â'r Prif Arholwr neu'r Arweinydd Tîm fel y bo angen.

Cymhwyso'r Cynllun marcio

- 1 Nodir y cwestiwn yn y golofn gyntaf.
 - 2 Mae'r ail golofn yn nodi'r atebion disgwylidig i'r cwestiwn. Nid yw'r atebion disgwylidig yn derfynol drylwyr ac felly dylai'r marciwr ddefnyddio ei farn broffesiynol.
 - 3 Ar gyfer rhai o'r atebion disgwylidig, mae atebion enghreifftiol wedi eu darparu er mwyn rhoi arweiniad ychwanegol, yn enwedig lle mae'r cwestiwn yn caniatáu ar gyfer ystod ymateb eang gan y dysgwr.
 - 4 Mae'r drydedd golofn yn nodi sut y dylid dyfarnu'r marciau.
 - 5 Mae **(1)** yn nodi dyfarniad pob marc.
 - 6 Mae 1×4 **(4)** yn nodi bod y marc (is-gyfanswm) ar gyfer rhan honno'r cwestiwn yn cynnwys **pedwar** ateb neu ran un marc.
 - 7 Y **(6)** neu farc tebyg yn y drydedd golofn yw'r is-gyfanswm a roddir i ran honno'r cwestiwn ac mae yr un peth â'r is-gyfanswm sy'n ymddangos ar y papur cwestiynau.
 - 8 Mae cyfanswm y marciau ar gyfer pob cwestiwn yn **Ddu** ar waelod bob cwestiwn llawn.
 - 9 Mae gwybodaeth sy'n **Ddu** ar waelod yr ail golofn ar gyfer y cwestiwn hwnnw yn rhoi arweiniad ynghylch sut i ddyfarnu ystod o farciau ac mae'n rhaid ei dilyn ar gyfer y cwestiwn penodol hwnnw ee **ymateb isel (1)** neu **esboniad manwl (2)**.
 - 10 Mae'r drydedd golofn ar gyfer gwybodaeth sylfaenol ymatebion syml wedi ei darparu gyda chyfanswm y marciau sydd ar gael ar gyfer y cwestiwn wedi ei roi mewn cromfachau.
- Lle mae angen atebion mwy estynedig gan y dysgwr, mae cyfarwyddiadau lefelau'r dull ymateb wedi eu darparu.

Cynllun marcio

**Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Busnes Cymhwysol
(Dyfarniad Sengl)**

**Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Busnes Cymhwysol
(Dyfarniad Dwbl)**

Edexcel TAG mewn Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Sengl)

Edexcel TAG mewn Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)

Uned 1

Archwilio Pobl yn y Gwaith

Busnes Cymhwysol Uned 1: Archwilio Pobl mewn Busnes: Cynllun marcio

Cwestiwn	Ateb disgwylidig	Marc a ddyfernir
1 a)	<ul style="list-style-type: none"> Mae strwythur canolog yn golygu y gwneir penderfyniadau ar y brig – gyda'r gwasanaethau wedi eu lleoli mewn un man — ee Adnoddau Dynol <i>Rarebear Ltd</i> yn Llundain. Mae strwythur wedi ei ddatganoli yn golygu y ceir mwy o ddirprwyo – a bod y gwasanaethau yn fwy ar wasgar — ee staff <i>Rarebear Ltd</i> ym mhob ffatri. 	<p>1 marc ar gyfer esbonio ystyr 'canolog' (uchafswm o 2 farc)</p> <p>1 marc ar gyfer cymhwysio i <i>Rarebear</i></p> <p>1 marc ar gyfer esbonio ystyr 'wedi ei ddatganoli' (uchafswm o 2 farc)</p> <p>1 marc ar gyfer cymhwysio i <i>Rarebear</i></p> <p style="text-align: right;">6 marc</p>
1 b)	<ul style="list-style-type: none"> Cynnyrch/deunyddiau newydd — bydd gan y Cyfarwyddwr Marchnata wybodaeth am y dyluniad arfaethedig — bydd y Cyfarwyddwr Cynhyrchu yn cynghori ynghylch sut y bydd dylunio yn dylanwadu ar ddiogelwch/adeiladu/cynhyrchu. 	<p>1 marc am enghraifft</p> <p>1 marc am gyfeirio at swyddogaethau</p> <p>1 marc am esbonio'r cyswllt</p> <p style="text-align: right;">3 marc</p>
1 c)	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu cyfran y farchnad — fel y gallai <i>Rarebear Ltd</i> gystadlu'n fwy effeithiol. Cynyddu gwerthiant — fel y gallai <i>Rarebear Ltd</i> gyflawni mwy o arbedion maint. Cynyddu elw — fel y gallai <i>Rarebear Ltd</i> dalu difidendau i gyfranddeiliaid. 	<p>1 marc am nod</p> <p>1 marc am esboniad</p> <p style="text-align: center;">(1 + 1) x 2</p> <p style="text-align: right;">4 marc</p>
1 ch)	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtio. Cofnodion staff. Hyfforddiant/datblygiad. Arfarnu. Cyngor. 	<p>1 marc am bob gwasanaeth</p> <p style="text-align: right;">3 marc</p>
1 d)	<ul style="list-style-type: none"> Ee recriwtio — cyfle cyfartal i'r ddau ryw wrth gael eu cyfweld. Ee dyrchafiad mewnol — ni wahaniaethir yn erbyn ymgeiswyr gwrywaidd neu fenywaidd. 	<p>1 marc am enghraifft</p> <p>1 marc am esboniad</p> <p style="text-align: center;">(1 + 1) x 2</p> <p style="text-align: right;">4 marc</p>
1 dd)	<p><u>Ee disgrifiad o Tesco</u></p> <p>Prif Swyddfa . . . siopau . . . y gwasanaethau canolog yw . . . Mae trefniadaeth yn . . .</p>	<p>3 marc am ddisgrifiad yn dangos gwybodaeth drylwyr o'r strwythur (2 farc am ddisgrifiad cadarn)</p> <p>(1 marc am ddisgrifiad sylfaenol /rhannol)</p> <p style="text-align: right;">3 marc</p>
1 e)	<p>(Ee) Mae gan Tesco strwythur uchel oherwydd . . .</p> <p>Yr elfennau tebyg felly yw . . .</p> <p>Y gwahaniaethau yw . . .</p> <p>Mae hyn oherwydd (ee) maint/leoliad/sector y busnesau . . .</p>	<p>1 marc am esbonio elfennau tebyg</p> <p>1 marc am esbonio gwahaniaeth (uchafswm o 4 marc)</p> <p>1 marc am y rhesymau dros yr elfennau tebyg neu'r gwahaniaethau (uchafswm o 3 marc)</p> <p style="text-align: right;">7 marc</p>

Cwestiwn	Ateb disgwylidig	Marc a ddyfernir
2 a)	<ul style="list-style-type: none"> • Busnesau lleol. • Y gymuned leol. • Staff. 	<p>1 marc ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid</p> <p style="text-align: right;">2 marc</p>
2 b)	<ul style="list-style-type: none"> • Teitl y swydd — Cynorthwy-ydd Cyllid Iau. • Cyflog — £10 000 yn codi i £12 000 y flwyddyn. • Gwyliau blynyddol — yn ogystal â gwyliau banc, 22 o ddiwrnodau gwaith y flwyddyn yn codi i 25 o ddiwrnodau ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth. • Lleoliad — wedi'i lleoli yn y Swyddfa Cyfrifon/wedi'i lleoli ar y Prif Safle. 	<p>1 marc ar gyfer eitem</p> <p>1 marc ar gyfer enghraifft (1 + 1) x 2</p> <p style="text-align: right;">4 marc</p>
2 c) (i)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Fanyleb Person ar gyfer Cynorthwydd Cyllid Iau yn cael ei chreu o'r Disgrifiad swydd – oherwydd gellir nodi nodweddion personol pan fydd manylion y swydd yn hysbys. 	<p>1 marc ar gyfer gwybodaeth am berthynas</p> <p>1 marc ar gyfer esbonio perthynas</p> <p style="text-align: right;">2 marc</p>
2 c) (ii)	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau — cyfathrebu da/rhifedd da/hunanddisgyblaeth. • Profiad — dim/peth gwaith swyddfa blaenorol/cyfraniad llwyddiannus i waith tîm • Gwybodaeth — gwybodaeth am gyfrifiaduron/taenlenni/meddalwedd cyfrifo. • Cymwysterau — NVQ/TGAU Saesneg a Mathemateg. • Gofynion eraill — ymrwymiad i gydraddoldeb/gallu gweithio fel rhan o dîm. 	<p>1 marc ar gyfer pob datganiad 5 x 1</p> <p>2 marc os ydynt wedi eu tynnu'n llawn o'r Disgrifiad swydd (1 marc os ydynt wedi eu tynnu'n rhannol o'r Disgrifiad swydd)</p> <p style="text-align: right;">7 marc</p>
2 ch)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus feddu ar y Nodweddion Hanfodol hyn neu ni fyddant yn gallu gwneud y swydd yn ddigonol — mae hyn yn helpu Juanita wrth gyfweild — trwy nodi pobl addas — ac yn helpu i reoli costau recriwtio <i>Coleg Melford</i> — trwy leihau trosiant llafur. 	<p>1 marc ar gyfer gwybodaeth am nodweddion hanfodol</p> <p>1 marc ar gyfer pob effaith ar waith Juanita (uchafswm o 2 marc)</p> <p>1 marc ar gyfer pob effaith ar <i>Goleg Melford</i> (uchafswm o 2 marc)</p> <p style="text-align: right;">5 marc</p>

Cwestiwn	Ateb disgwylidig	Marc a ddyfernir
2 d)	<p><u>Ee Canolfan arddio leol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Gonestrwydd — am fod staff yn y manau talu yn delio ag arian — a staff eraill yn delio â'r planhigion ac eitemau eraill sydd ar werth. Prydlondeb/bodloni terfynau amser — am fod y cwsmeriaid am gael gwasanaeth/ddim am aros yn hwy nag sy'n rhaid – ac mae angen i'r staff fod ar gael ar gyfer hyn. 	<p>1 marc ar gyfer nodweddion personol priodol</p> <p>1 marc ar gyfer esbonio pwysigrwydd (uchafswm o 2 farc)</p> <p>(2 x 2)</p> <p style="text-align: right;">5 marc</p>
2 dd)	<p><u>Ee dylanwadau tebygol ar ganolfan arddio leol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Llygredd — rheoli gwastraff bwyd o'r caffi — angen ei waredu'n ofalus. Deunydd glanhau — ei waredu — gallai fod yn niweidiol/gellir cael dirwyon. Fermin — gwaredu gwastraff — angen annog yn erbyn hyn/efallai y bydd angen cysylltu â'r cyngor lleol. Ailgylchu — potiau/cynhwyswyr a ddefnyddir — hwyrach y gellir eu hailddefnyddio. <p><u>Ee casgliad</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithgareddau'r ganolfan arddio'n ymwneud â materion amgylcheddol ac yn effeithio ar waith y staff /Mae angen i staff y ganolfan arddio fod yn fwy ymwybodol o'r ffordd y mae eu gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd a'r posibilrwydd o gyhoeddusrwydd gwael. 	<p>2 farc ar gyfer y ffordd y mae materion amgylcheddol yn effeithio ar weithgareddau'r busnes</p> <p>(1 marc ar gyfer gwybodaeth sylfaenol am ddylanwadau amgylcheddol)</p> <p>1 marc ar gyfer pob ymateb tebygol gan y busnes (uchafswm o 2 farc)</p> <p>1 marc ar gyfer casgliad dilys</p> <p style="text-align: right;">5 marc</p>
3 a)	<p>Y cyngor/sector cyhoeddus sy'n berchen ar <i>Ganolfan Hamdden Melford</i> — ond fel busnes yn y sector preifat, cyfranddeiliaid sy'n berchen ar <i>Gunns Ltd.</i></p>	<p>1 marc ar gyfer perchnogaeth pob busnes</p> <p style="text-align: right;">2 farc</p>
3 b)	<ul style="list-style-type: none"> Bodddhad cwsmeriaid — mae'r ddau yn dibynnu ar gwsmeriaid am reffeniw — sy'n arwain at elw/gwarged ar gyfer y perchennog(perchnogion). Cyfran o'r farchnad — mae'r ddau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd ac felly byddant yn ceisio denu cwsmeriaid oddi wrth ei gilydd — ac mae cynnydd yn y gyfran o'r farchnad yn cynyddu'r siawns o oroesi. 	<p>1 marc ar gyfer y ddau amcan</p> <p>1 marc ar gyfer esbonio pam y mae pob un yn briodol (uchafswm o 2 farc)</p> <p>(2 + 2)</p> <p style="text-align: right;">5 marc</p>

Cwestiwn	Ateb disgwylidig	Marc a ddyfernir
3 c)	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod cwsmeriaid yn ymddwyn yn gyfrifol. Gwirio'r bocsys cymorth cyntaf bob dydd. Sicrhau bod chwibanau/larymau yn cael eu cario bob amser. Cofnodi pob damwain mewn Llyfr Damweiniau. Sychu unrhyw ddŵr gwastraff/unrhyw beth sy'n gorlifo ar unwaith. 	<p>1 marc ar gyfer bob eitem</p> <p style="text-align: right;">5 marc</p>
3 ch)	<ul style="list-style-type: none"> Staff y pwll a staff chwaraeon yn gwneud gwaith nad oeddent yn disgwyl ei wneud — mae hyn yn mynd â hwy i ffwrdd o'u prif waith/yn rhoi pwysau arnynt. Ymddengys nad oes gan staff y caffi/bar lawer o sicrwydd — o ganlyniad efallai nad oes llawer o gymhelliant iddynt fynychu'n rheolaidd. Beirniadaeth mewn papur lleol — morâl y staff presennol yn cael ei effeithio gan gyhoeddusrwydd gwael. 	<p>1 marc ar gyfer rheswm</p> <p>1 marc ar gyfer esboniad</p> <p style="text-align: right;">2 marc</p>
3 d)	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu cyflog staff y caffi/bar/chwaraeon — hwyrach y bydd hyn yn annog staff y caffi i fynychu'n fwy rheolaidd ac yn annog y staff chwaraeon i wneud gwaith llanw — ond mae'n ychwanegu at gostau'r Ganolfan — ac efallai nad cyflog yw'r prif gymhellwr. Gwella amodau gwaith — bydd hyn yn annog staff ac yn bodloni anghenion staff is Maslow/ffactorau hylendid Herzberg — ond bydd yn ychwanegu at y costau — a hwyrach nad hyn yw achos y morâl isel ac felly ni fydd yn datrys y broblem. 	<p>1 marc ar gyfer nodi ymagwedd</p> <p>3 marc ar gyfer esbonio'n llawn mewn cyd-destun (hyd at 2 marc ar gyfer esboniad llai manwl)</p> <p>2 marc ar gyfer esbonio effaith negyddol</p> <p>(1 marc ar gyfer esboniad llai manwl)</p> <p style="text-align: right;">6 marc</p>
3 dd)	<p><u>Ee Ford</u>, effeithiau (ee)</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnyrch — mae angen i'r staff fodloni gofynion cwsmeriaid/archebion cwsmeriaid/mae'n rhaid i'r staff gystadlu yn erbyn cwmnïau ceir eraill. Cyfathrebu — mae angen i'r staff gysylltu â modurdai eraill yn ymwneud â gwerthiant/cwsmeriaid. Awyrgylch — effeithio ar barodrwydd staff i werthu/cynhyrchu. 	<p>1 marc ar gyfer nodi nodwedd briodol</p> <p>1 marc ar gyfer esbonio perthnasedd mewn cyd-destun</p> <p style="text-align: center;">(1 + 1) x 2</p> <p style="text-align: right;">4 marc</p>

3 e)	<p><u>Ee Maslow mewn perthynas â Ford</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Anghenion lefel is, ee ffisegol = lefelau tâl ac amodau gwaith ar y llinell gynhyrchu — diogelwch = diogelwch swyddi yn Ford — effeithio ar bresenoldeb, prydlondeb, cynnyrch. • Lefel uwch, ee cymdeithasol = gwaith tîm, hunansylweddoliad = datblygu sgiliau newydd yn Ford — effeithio ar weithio gyda chydweithwyr, menter. 	<p>2 farc ar gyfer gwybodaeth am ddamcaniaeth (1 marc ar gyfer gwybodaeth sylfaenol/rannol)</p> <p>2 farc ar gyfer gwerthuso mewn cyd-destun (1 marc ar gyfer gwerthusiad sylfaenol/rhannol)</p> <p>2 farc ar gyfer gwerthusiad penodol yng nghyd-destun y busnes dewisol (1 marc ar gyfer gwerthusiad sylfaenol/rhannol)</p> <p style="text-align: right;">6 marc</p>
------	---	---

Dosbarthiad maes cynnwys

Cwestiwn	Maes cynnwys			
	1.1	1.2	1.3	1.4
1 (a)	6			
1 b)	3			
1 c)	4			
1 ch)		3		
1 d)		4		
1 dd)	3			
1 e)	7			
2 a)				2
2 b)		4		
2 c) (i)		2		
2 c) (ii)		7		
2 ch)		5		
2 d)		5		
2 dd)				5
3 a)	2			
3 b)	5			
3 c)				5
3 ch)			2	
3 d)			6	
3 dd)			4	
3 e)			6	
Marciau	30	30	18	12

Cwestiwn	AA1 Cyfwerth â'r Band			AA2 Cyfwerth â'r Band			AA3 Cyfwerth â'r Band			AA4 Cyfwerth â'r Band			
	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
1 a)	2	2		2									6
1 b)	1	2											3
1 c)	2	2											4
1 ch)	3												3
1 d)				2	2								4
1 dd)				1	1	1							3
1 e)							2	2		1	1	1	7
2 a)	2												2
2 b)					2	2							4
2 c) (i)	1	1											2
2 c) (ii)						2	3	1	1				7
2 ch)	1	2	2										5
2 d)	1			2	2								5
2 dd)	1			1			1	1		1			5
3 a)	2												2
3 b)	1	2	2										5
3 c)				5									5
3 ch)				1	1								2
3 d)			2					1	2	1			6
3 dd)				2		2							4
3 e)	1	1								2	1	1	6
	18	12	6	16	8	5	8	5	3	5	2	2	
Cyfanswm	18	12	6	16	8	7	6	5	3	5	2	2	
	36			31			14			9			90

Dadansoddiad o'r papur

Mae'r targed cyffredinol ar gyfer pob Amcan Asesu yn seiliedig ar 40%, 35%, 15% a 10% fel y cytunwyd ar gyfer Uned 1, sydd, ar bapur 90 marc, yn rhoi

36 marc ar gyfer AA1

31.5 (= 31) marc ar gyfer AA2

13.5 (= 14) marc ar gyfer AA3

9 marc ar gyfer AA4.

Cynllun marcio

Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Busnes Cymhwysol
(Dyfarniad Sengl)

Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Busnes Cymhwysol
(Dyfarniad Dwbl)

Edexcel TAG mewn Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Sengl)

Edexcel TAG mewn Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)

Uned 6

Archwilio Hyrwyddo

Busnes Cymhwysol Uned 6: Archwilio Hyrwyddo: Cynllun marcio

Cwestiwn	Ateb disgwylidig	Marc a ddyfernir
1	<ul style="list-style-type: none"> I orosi – defnyddio hyrwyddo i ddenu aelodau posibl. I wneud arian/elw — defnyddio hyrwyddo i droi ymwybyddiaeth yn ymrwymiad i wario £300 a £50 y mis ar aelodaeth. I gael 300 o aelodau erbyn diwedd blwyddyn un – hyrwyddo marchnad darged. I greu ymwybyddiaeth ymysg ardal y farchnad darged/dalgylch — eu hargyhoeddi ei bod yn werth ymuno â'r ganolfan/gwario arian. I ddenu dynion a menywod/aelodau yn ystod oedran 18–45 — eu hannog i ymweld a gweld drostynt eu hunain fanteision ymuno â'r ganolfan. Cael cynllun hyrwyddo – rhoi hysbysebion gan ddefnyddio'r cyfrwng priodol ar gyfer y grŵp targed. 	<p>1 marc ar gyfer amcan busnes</p> <p>1 marc ar gyfer nodi hyrwyddo priodol</p> <p>$(1 + 1) \times 2$</p> <p style="text-align: right;">(4 marc)</p>
2	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtio — bydd angen rhaglen barhaus o recriwtio/gwybodaeth yn awgrymu cyfradd gadael uchel – bydd angen cynllunio hyrwyddo yn y tymor hir. Targedu – llawer o bobl eisoes â diddordeb yn y syniad o ymuno â champfa/llai o angen i argyhoeddi anghredinwyr am fanteision bod yn aelod o gampfa — bydd angen defnyddio cyfrwng sy'n canolbwyntio ar y farchnad darged. 	<p>1 marc ar gyfer ffactor</p> <p>1 marc ar gyfer nodi sut y bydd y ffactor yn effeithio ar ei chynlluniau</p> <p>1 marc ar gyfer effaith wirioneddol ar gynlluniau hyrwyddo</p> <p>$(1 + 1 + 1) \times 2$</p> <p style="text-align: right;">(6 marc)</p>
3 a)	<ul style="list-style-type: none"> Y wasg/y wasg leol. Sinema. Radio. Teledu. 	<p>1 marc ar gyfer pob cyfrwng</p> <p style="text-align: right;">(2 marc)</p>
